Cyfeiriad y cyflogwr | Fy nghyfeiriad
…. | …..
….. | ……

Dyddiad heddiw

Annwyl Mr Smith,

Ar hyn o bryd, rydw i'n fyfyriwr blwyddyn olaf sy'n astudio LLB y Gyfraith ym Mhrifysgol Caerdydd, sy'n disgwyl ennill gradd â 2:1 uchel yn haf 2024. Mae gen i ddiddordeb mawr yn y cyfleoedd contract hyfforddiant 2026 a hysbysebir gan ACE Solicitors ar eu gwefan.

Yn ddiweddar, es i i'r Ffair Rithwir Legal Cheek, a ches i'r cyfle i gwrdd ag aelodau o'r tîm yn ACE, a gwybod mwy am y cwmni, ei feysydd ymarfer, ei ddiwylliant a'i waith pro bono. Rwy'n cael fy nenu'n arbennig at waith y cwmni ym maes Arloesi a Thechnoleg, a hynny ar ôl datblygu fy niddordeb yn y maes hwnnw drwy fodiwl blwyddyn olaf ac astudiais i ar Dechnoleg Gyfreithiol. Rwy'n cadw llygad barcud ar y datblygiadau ym maes Deallusrwydd Artiffisial (AI), ac ar y ffyrdd y bydd hynny'n effeithloni'r canlynol: ymchwil gyfreithiol; diwydrwydd dyladwy a gwaith adolygu contractau; a gwella effeithlonrwydd a lleihau costau, a fydd yn y pen draw o fudd i gleientiaid cwmnïau cyfreithiol.

Gwnaeth y gwaith a wna ACE â chleientiaid mewn mwy na 50 gwlad hoelio fy sylw. A minnau wedi cael fy magu â ffrindiau sy'n dod o bob cwr o'r byd, gwnaethon nhw ennyn fy niddordeb mewn diwylliannau eraill. Mae'r diddordeb hwn wedi llywio nifer o'r penderfyniadau rwy' wedi'u gwneud hyd yma, gan gynnwys cymryd rhan ym mhrosiect pro bono Prifysgol Caerdydd a wnaeth canolbwyntio ar droseddau hawliau dynol yng nghyd-destun mwynglawdd aur yn Tanzania. Mae'r model rhannu ystafell a'r dull nad yw'n hierarchaidd yn ACE yn atyniadol i mi, oherwydd rwy'n mwynhau datrys problemau ac wedi canfod mai'r ffordd orau o feddwl am atebion yw gweithio gyda phobl ag ystod o brofiadau gwahanol. Yn fy rôl baragyfreithiol flaenorol gyda XYZ Law, roeddwn i'n mwynhau dysgu o'r sgyrsiau a glywais i yn y swyddfa. Gwnes i ddatblygu perthnasoedd gwaith cryf ar sail cyd-ymddiriedaeth, a hoffwn i wneud yr un peth yn ystod fy nghytundeb hyfforddiant. Yn ystod y Ffair Gyfraith Rithwir, fe wnaeth ymrwymiad y cwmni i amrywiaeth a chynhwysiant wneud argraff arnaf i. A minnau'n aelod o'r gymuned BAME, mae'n bwysig imi allu gweithio â chwmni sy'n dathlu amrywiaeth, yn hytrach na'i goddef. Mae penderfyniad ACE i fod yn rhagweithiol yn wrth-hiliol, a'i ymrwymiad i ystod o weithgareddau gwrth-hiliaeth pro bono yn dangos bod y cwmni'n rhoi ei werthoedd ar waith.

Fel y gwelwch chi o'm CV, cwblheais i leoliad gwaith gyda BEST LLP yn haf 2023, lle ces i'r cyfle i gysgodi hyfforddeion a chymdeithion a wnaeth rhoi cipolwg gwerthfawr imi ar eu gwaith, gan gynnwys ar dasgau ymchwil, drafftio dogfennau a chyfarfod â chleientiaid. Ynghyd â chyfleoedd cysgodi blaenorol mewn practis rhanbarthol ac mewn cwmni stryd fawr fel ei gilydd, mae'r profiad hwn wedi cadarnhau fy mod i eisiau gweithio mewn cwmni mwy o faint sy'n gweddu orau i'm diddordebau a'm cryfderau. Rydw i wedi datblygu sgiliau rheoli a chyfathrebu cryf drwy gydol fy ngwaith rhan-amser ym Mar Undeb y Myfyrwyr, ac rwy'n hyderus y galla' i gymhwyso fy ngwasanaeth cwsmeriaid a'm sgiliau gwrando a ddatblygwyd drwy waith gwirfoddol hwn gyda Chyngor ar Bopeth a'm gwaith yn ymdrin â chleientiaid yn ACE. Rwy'n selog dros chwaraeon ac yn mwynhau chwarae i dîm rygbi'r Gyfraith (ynghyd â'm clwb rygbi cartref pryd bynnag y galla i). Mae cymryd rhan mewn chwaraeon wedi dangos imi bwysigrwydd gweithio mewn tîm, sut i ysgogi

fy hun a phobl eraill, a sut i fod yn ddibynadwy drwy ymroi i sesiynau hyfforddi a gemau rheolaidd. Rwy'n credu y bydd y rhinweddau hyn o fudd imi lwyddo ym maes y gyfraith.

Diolch yn fawr i chi am ystyried fy nghais.  Rwy’n edrych ymlaen at glywed gennych chi.

Yn gywir,